# Y Pwyllgor Deisebau

## Cofnodion : PET(3) 03-10

**Dyddiad: Dydd Llun, 23 Chwefror 2010**
**Amser: 09.02 - 10.59**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Christine Chapman AC, Cwm Cynon (Cadeirydd)
Mick Bates AC, Sir Drefaldwyn
Andrew RT Davies AC, Canol De Cymru
Bethan Jenkins AC, Gorllewin De Cymru

### Swyddogion

Naomi Stocks, Clerc
Andrew Minnis, Dirprwy Glerc
Joanest Jackson, Cynghorydd Cyfreithiol

### Cyflwynwyr

Stephen Thomas (Eitem 2)
Dr John Cox (Eitem 2)
Jill Evans ASE (Eitem 2)
Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Eitem 3)
Carys Evans, Pennaeth Byrddau Gwasanaethau Lleol a Chynllun Gofodol Cymru, Llywodraeth Cymru, (Eitem 3)
Rosemary Thomas, Pennaeth Cynllunio, Llywodraeth Cymru, (Eitem 3)
Tomas Baum, Cyfarwyddwr, Sefydliad Heddwch Fflandrys, (Eitem 4)
Nelly Maes, Sefydliad Heddwch Fflandrys, (Eitem 4)

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Cafwyd ymddiheuriadau gan Mike German. Roedd Mick Bates yn dirprwyo ar ei ran.

### 2. Sesiwn dystiolaeth: P-03-262 Academi Heddwch Cymru

Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Stephen Thomas, Dr John Cox a Jill Evans ASE.

### 3. Sesiwn dystiolaeth: P-03-243 Tynnu'n ôl yn ffurfiol o strategaeth is-ranbarthol Gorllewin Caer / Gogledd-ddwyrain Cymru

Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb, Carys Evans a Rosemary Thomas.

### 4. Sesiwn dystiolaeth: P-03-262 Academi Heddwch Cymru

Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Tomas Baum a Nelly Maes.

### 5. Trafod y dystiolaeth

### (i) Deiseb P-03-262 Academi Heddwch Cymru

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddarparwyd gan y tystion.

### Camau i'w cymryd

Cytunodd y Pwyllgor ar y canlynol:

Defnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd gan y tystion fel sail i gwestiynau a ofynnir i dystion yn y dyfodol.

Ysgrifennu at y Prif Weinidog i egluro nodau'r ddeiseb iddo ac i holi am ei farn yng ngoleuni'r dystiolaeth a gasglwyd.

Comisiynu ymchwil gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau sy'n ymhelaethu ar drefniadau llywodraethu a ddefnyddir mewn academïau heddwch Ewropeaidd.

Ysgrifennu at y deisebwyr i gael manylion pellach am y blaenoriaethau y gallai Academi Heddwch Cymru fynd i'r afael â nhw, fel sail i

ystyriaeth gychwynnol gan unrhyw grŵp gorchwyl a gorffen.

### (ii) Deiseb P-03-243 Tynnu'n ôl yn ffurfiol o strategaeth is-ranbarthol Gorllewin Caer / Gogledd-ddwyrain Cymru

### Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddarparwyd gan y tystion.

### Camau i'w cymryd

Cytunodd y Pwyllgor ar y canlynol:

Aros am y wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani gan y prif ddeisebwyr a Chynghrair Merswy Dyfrdwy

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb i ofyn am y canlynol:

ymateb i nifer o gwestiynau sydd heb eu hateb;

manylion pellach ar sut, a gan pwy, y trefnwyd yr ymgynghoriad a'r broses benderfynu ar gyfer y Strategaeth Is-ranbarthol;

pwy sefydlodd yr angen lleol am dai mewn awdurdodau lleol, y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth neu'r awdurdodau lleol eu hunain;

manylion pellach i weld a yw canllaw Polisi Cynllunio Cymru yn cyd-fynd â chytundeb Cymru'n Un;

copi o'r gwerthusiad cynaliadwyedd ar gyfer Cynllun Gofodol Cymru a'r Strategaeth Is-ranbarthol, ac a yw awdurdodau Lloegr, sydd wedi'u crybwyll yn y Strategaeth Is-ranbarthol, yn gorfod cael gwerthusiadau cynaliadwyedd o'r fath.

### 6. Deiseb newydd

### (i) P-03-257 Adfer darlledu Trafodion y Cynulliad ar S4C2

### Camau i'w cymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

Aros am ymateb y Llywydd

### 7. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### (i) P-03-206 Nofio am ddim drwy'r flwyddyn i blant a phobl ifanc

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

### Camau i'w cymryd

Cytunodd y Pwyllgor ar y canlynol:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Dreftadaeth gyda chrynodeb o'r ymateb fideo a gafwyd gan y deisebwyr, a gofyn am y canlynol:

manylion am y cynnydd a wnaed wrth ymestyn darpariaethau nofio am ddim gydol y flwyddyn;

sut mae'r cynllun 5x60 yn diwallu anghenion plant ag anableddau;

pa ganllawiau a gaiff eu rhoi i awdurdodau lleol ar sut y caiff cyfleoedd nofio am ddim eu hamserlennu.

Ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gofyn

pam mae anghysondeb yn bodoli rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru wrth gynnig cyfleoedd nofio am ddim

sut mae plant anabl yn cael eu cynnwys yn y cynllun (er enghraifft wrth ddarparu trafnidiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig)

Gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau am y briff a gomisiynwyd yn flaenorol ar ddarpariaeth nofio am ddim yng Nghymru.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Chwefror 2010**